
YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR

Tymor y Hydref 2020 – Dosbarth Bl. 2

# Bant â ni i gynllunio!




Dysgu am waith yr heddlu.

Amelie

Tynnu lluniau o arch-arwyr! Rhys

Creu animeiddiad o arwr yn achub rhywun! Milena

Dysgu am waith meddygon.
Aron

Oes gan bob arwr bwerau?

Adda

Beth mae arch-arwyr yn bwyta?

Nia

YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR

# Tymor y Hydref 2020 – Dosbarth Bl. 2

## Ydy pob arwr yn gwisgo clogyn?

Dyma ein syniadau ar gyfer y tymor!

Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion!
www.yggbrynymor.co.uk
Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd!
@YGGBrynymor1

### Iechyd a Lles
- Dysgu am bwysigrwydd diet cytbwys a bwyta'n iach.
- Trafod ymddygiad da a drwg.
- Parhau i ddatblygu ein ffitrwydd.
- Ymarfer sgiliau llawdriniol manwl ar ein bwrdd bysedd prysur.

### Y Dyniaethau
- Trafod sut mae archarwyr wedi newid dros y blynyddoedd a dysgu am Superted, yr archarwr Cymraeg cyntaf.
- Trafod pwy sy'n arwyr i ni yn ein bywydau bob dydd.
- Dysgu am arwyr o Gymru.
- Dysgu am waith arwyr yn ein cymuned.
- Dysgu am draddodiadau Nadolig a pham fod y Nadolig yn bwysig i Gristnogion.

### Y Celfyddydau Mynegiannol
- Astudio delweddau o archarwyr.
- Darlunio archarwyr dychmygol.
- Astudio cerddoriaeth sy'n cael ei ddefnyddio i bortreadu archarwyr mewn cartwnau neu ffilmiau. Cyfansoddi cerddoriaeth eu hunain i bortreadu archarwyr.
- Symud yn greadigol i gerddoriaeth archarwyr.
- Defnyddio'r holl sgiliau rydyn wedi dysgu i greu animeiddiad syml am ein archarwr dychmygol.

Bydd gwaith cartref mathemateg ar nos Iau neu nos Wener. Bydd y gwaith cartref yn cael ei rannu trwy gyfrif Hwb eich plentyn. Gweler cyfarwyddiadau ar dudalen dosbarth ar wefan yr ysgol.

Bydd geirfa i'w dysgu ar ddydd Gwener a byddwn yn cael prawf sillafu bach ar y dydd Gwener canlynol. (Bl.2)

### Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Defnyddio ystod o offer cyfrifiadurol yn ddiogel.
- Datblygu sgiliau rhoi cyfarwyddiadau i degan rhaglenadwy.
- Cynnal ymchwiliadau i effaith ymarfer corff ar ein cyrff.
- Dylunio, creu a gwerthuso addurn Nadolig.

### Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Creu cornel chwarae rôl 'Ffau'r Archarwyr' a mwynhau anturiaethau o bob math!
- Darllen a gwrando ar amrywiaeth o straeon a barddoniaeth.
- Dal ati i ddatblygu ein sgiliau darllen.
- Mwynhau ysgrifennu mewn pob math o ddulliau gwahanol, gan ganolbwyntio ar ysgrifennu **disgrifiadau, llythyron a stribedi comic syml.**
- Parhau i ymarfer ein sgiliau sillafu a dysgu ffurfio llythrennau yn gywir.

### Mathemateg a Rhifedd
- Ymarfer cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau .
- Ymarfer a gwella sgiliau adio, tynnu i ffwrdd a lluosi.
- Defnyddio arian, ymarfer ein sgiliau mesur ac astudio siap.
- Chwarae llawer o gêmau mathemateg pen.
- Casglu data a'i gyflwyno.